Glannau Bae Colwyn
Cam 2b (Llandrillo yn Rhos)

Bwletin y Prosiect: Gwanwyn 2023

Rhagarweiniad

Penodwyd Griffiths gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2022 i gyflawni'r cynllun hwn, sy'n cynnwys cryfhau'r amddiffynfeydd môr a gwelliannau mawr i'r promenâd. Dechreuon ni ar y prosiect ym mis Mai 2022, gyda'n gwaith i fod i gael ei gwblhau yn ystod yr haf eleni. Cafodd y gwaith ail-sandio traethau ei gontractio ar wahân i gontractwr arbenigol, Boskalis Westminster, a gwblhaodd eu rhan o'r prosiect ddiwedd haf 2022.

Diweddariad Prosiect – Amddiffinfeydd Arfordirol

Mae tair elfen i'r gwelliannau i'r amddiffynfeydd môr, ail sandio (a wnaed ar wahân gan gontractwyr arbenigol Boskalis Westminster), ail-greu'r argor ger Harbwr Rhos; ac atgyweiriadau i'r morglawdd. Cafodd 20,000 o dunelli o graig bresennol eu hadennill a'u hailgylchu i wneud y gwaith argor, gan ei wneud yn uwch ac yn lletach, ac mae braich newydd wedi'i hychwanegu i greu cynllun cynffon pysgod. Mae nifer sylweddol o atgyweiriadau wedi'u gwneud ar y morglawdd, a oedd yn cynnwys gwaith ail-bwyntio a growtio gwagleoedd (bylchau yn y gwaith pwyntio).

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cysylltu â ni, naill ai drwy'r manylion cyswllt sydd i'w gweld yn y bwletin hwn neu drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Heb adborth ni allwn fynd i'r afael ag unrhyw faterion na cheisio gwella unrhyw beth y mae ein gwaith yn effeithio arno. Byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â'r gymuned leol ynghylch ein gwaith, ac yn gwerthfawrogi bod yr aflonyddwch yn effeithio ar lawer ohonoch. Fodd bynnag, fel gyda phob prosiect adeiladu mawr, mae rhywfaint o aflonyddwch yn anochel, boed yn oleuadau traffig neu'n gweithio o fewn y cyfyngiadau a ddaw yn sgil amseroedd llanw. Mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud yn hanfodol i gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich amynedd a'ch dealltwriaeth.

Mae gwaith arall ar y traeth wedi cynnwys ymestyn nifer o ollyngfeydd dŵr wyneb Dŵr Cymru 160 metr ymhellach i'r môr (y tu hwnt i gopa'r tywod a fewnforiwyd) i gynnal llif a defnyddioldeb. Mae 1,500m^3 (tua 3,610 tunnell) o goncrit wedi'i arllwys ar gyfer estyniadau arllwysfa'r traeth. Mae'r rhan hon o'r gwaith yn enghraifft dda o sut mae amseroedd llanw – ynghyd ag amodau'r tywydd a'r môr – wedi dylanwadu ar ein horiau gwaith fel y gallwn weithio'n ddiogel bob amser. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith traeth sy'n cynnwys gweithio oriau anghymdeithasol wedi'i gwblhau.

Diweddariad Prosiect – Gwaith ar y Promenâd

Mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo i uwchraddio'r promenâd ei hun; hyd yn hyn mae 1,870 metr (ychydig dros filltir) o ddwythellau cebl 4-ffordd a 100mm unigol wedi'u gosod. Mae bron pob un o'r pibellau tanddaearol wedi'u gosod erbyn hyn ynghyd â'r seilwaith ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV).

Mae'r llochesi a'r ciosgau presennol wedi'u dymchwel, ac mae gwaith paratoi tir ar gyfer gwelliannau i'r priffyrdd a'r ardaloedd defnydd a rennir - cloddio a gosod agregau ar gyfer y sylfaen - wedi'u cwblhau i raddau helaeth.

Mae'r gwaith o osod cyrbau priffyrdd ac ymylon llwybrau troed yn mynd rhagddo'n dda, ac mae'r ardal gwaith concrit agregau/lliwiau agored ar fin cael ei gwblhau, yn ogystal â gosod yr elfennau draenio priffyrdd newydd. Mae gosod sylfeini concrit ar gyfer y planwyr a'r dodrefn stryd wedi'i gwblhau.

Erbyn i'r prosiect ddod i ben yn yr haf eleni, bydd 2,100m² (22,604 troedfedd sgwâr) o agregau agored a slab Concrit Atgyfnerthol lliw; 5000 metr (ychydig dros 3 milltir) o gyrbau a 12,000m² (129,167 troedfedd sgwâr) o arwynebau asffalt newydd wedi'u gosod.

Yn ogystal, byddwn wedi gosod 2500m² (26,910 troedfedd sgwâr) o wahanol fathau a phatrymau o slabiau palmant a 252 o eitemau o ddodrefn stryd, offer chwarae ac offer ymarfer corff wedi eu gosod – heb anghofio 55 o golofnau goleuadau stryd newydd!

Yn y Gymuned

Os ydych chi'n grŵp cymunedol lleol neu'n elusen sy'n chwilio am gefnogaeth, efallai y gallwn ni helpu! Anfonwch e-bost atom gan ddweud wrthym am y math o gymorth rydych yn chwilio amdano a sut y byddai ein cymorth o fudd i'r gymuned leol.

Yn dilyn cais am help gan Bryn Cadno - Canolfan Gymunedol Bae Colwyn Uchaf - rydym wedi gallu helpu gyda gwaith atgyweirio i'r maes parcio, a hefyd cynorthwyo gydag arolwg Teledu Cylch Cyfyng o'r system ddraenio ar gaeau chwarae Ysgol Rydal Penrhos i helpu i adnabod achos llifogydd y caeau yn ystod glaw trwm. Roeddem wrth ein bodd ein bod wedi gallu helpu Clwb Rotari Llandrillo-yn-Rhos gydag adleoli ffens compownd ein safle dros dro a darparu trydan i alluogi pobl leol i fynychu digwyddiad blynyddol i droi goleuadau'r Goeden Oleuadau ymlaen ar ddiwedd mis Tachwedd y llynedd i gefnogi Hosbis Dewi Sant; y tro cyntaf i hyn ddigwydd ers y pandemig.

Os hoffech chi gysylltu, ebostiwch ein Swyddog Cyswllt Cyhoeddus Rich Foxhall ar: oldcolwyncoastaldefence@alungriffiths.co.uk neu ffoniwch 0330 041 2185.
I weld ein Prosiectau ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt ewch i community.griffiths.co.uk/cy/prosiectau/

I gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â chynlluniau'r Prosiect ebostiwch: affch@conwy.gov.uk neu ffonwiwch 01492 575337